

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes- a gynhaliwyd ar nos Iau, 3ydd o Hydref, 2019 yn Ffestri Pencaenewydd am 6:30 y.h.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Aled Davies; Tegid Jones, Sion Aled Jones; a'r Clerc.

1.Ymddiheuriadau.

Roedd pawb yn bresennol.

Fe drefnwyd i gynnal y pwyllgor Cynllun Busnes o flaen y prif bwyllgor.

2. Ar y rhaglen.

Cyllideb 2019/20 a throsolwg o wariant y Cyngor hyd yma. Cafwyd adroddiad manwl o'r union wariant hyd yma (roedd taflenni wedi cael eu rhannu yn ystod y cyfarfod) a chymharwyd gyda'r gyllideb a bennwyd.

Rhodddwyd amlinelliad o'r gwariant sydd i ddod cyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef diwedd Mawrth 2020.

Ymhlith y prosiectau y bydd angen talu amdanynt, yw'r bwriad o gael 4 hysbysfwrdd yn y gymuned, oherwydd fod cymaint o wybodaeth angen ei hysbysebu. Cytunwyd i holi am brisiau, drwy ofyn wrth saer lleol o Chwilog, ac i edrych ar brisiau ar y wé. Penderfynwyd byddai'n well cael rhai o goedyn caled er mwyn iddynt gael hir oes.

Bydd angen talu am lenwi'r 5 bocs halen sydd o fewn y gymuned, y pris tua £60.00 - £80.00 yr un, felly mae'n anodd gwybod faint o aml fydd angen gwneud hyn yn ystod y gaeaf.

Wifi i Neuaddau Llanystumdwy, Chwilog a Llanystumdwy- heb gael biliau ganddynt eto.

Fe ddaw ad-daliad am arian llwybrau hefyd gan Cyngor Gwynedd. Bydd angen i'r Clerc anfon llythyr at yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor fis Ionawr 2020, i wneud cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned.

3. Prosiectau posibl, neu wedi ymrwymo iddynt am y flwyddyn Ebrill 2020-2021:-

- Cyngor Gwynedd-toiledau Llanystumdwy - £2000.00 y flwyddyn
- Clirio tir y Cyngor ym Maenywern - heb ei wneud ers blynnyddoedd.
- Tir y Cyngor Rhydybenllig - dim wedi ei wneud ers tro.
- Wifi y 3 neuadd bob blwyddyn.
- Tocio caled ar y llwybrau - heb ei wneud eleni.
- Cadw safle bedd Lloyd George yn daclus - tua £250.00 bob blwyddyn.

4. Arian Cyfraniad Budd-Cymunedol, fferm solar Tyddyn Gwyn, Llangybi.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod eto fis Rhagfyr, er mwyn argymhell rhannu'r arian rhwng mudiadau lleol, rhoi gwybod am yr arian yn Y Ffynnon ac ar safle we'r Cyngor, cael mantolen a gwybod beth fyddai'r mudiadau lleol yn wneud gyda'r arian.

Penderfynwyd hefyd i drafod pennu'r Praesept 2020 - 21 yn ein cyfarfod nesaf fis Rhagfyr 2019. Mae wedi bod yn £15,000 ers sawl blwyddyn bellach i allu rhoi'r gyllideb ar waith.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.